**Rhif: WG32050**

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Newidiadau i allbynnau ystadegol gwastraff trefol awdurdodau lleol

Dyddiad cyhoeddi: 27 Mehefin 2017
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 19 Medi 2017

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn holi barn ar: Newidiadau i Allbynnau Ystadegol Gwastraff Trefol Awdurdodau Lleol. |
| **Sut i ymateb** | Cewch ymateb i'r ymgynghoriad drwy ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar wahân (ar ffurf Excel). Gellir anfon hon mewn ebost at ystadegau.amgylchedd@cymru.gsi.gov.uk neu ei phostio at:<br><br>Luned Jones<br>Ystadegau Tai a'r Amgylchedd<br>Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ |
| **Gwybodaeth bellach a dogfennau perthnasol** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.** |
| **Manylion Cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Luned Jones<br><br>E-bost: ystadegau.amgylchedd@cymru.gsi.gov.uk<br><br>Rhif ffôn: 0300 061 6023 |
| **Diogelu data** | **Sut y byddwn yn defnyddio'r sylwadau a'r wybodaeth a roddwch inni.**<br><br>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. |

Os nad ydych yn dymuno i’ch enw a’ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni’n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion.

Mae’n bosibl y bydd yr enwau a’r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi’n ddiweddarach, er nad yw hynny’n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i’r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny’n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae’r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a’i gyfeiriad, bydd hynny’n fater pwysig inni ei ystyried. Fodd bynnag, gallai fod rhesymau pwysig weithiau dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â’u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â’r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu’r wybodaeth.

## Y cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth ystadegol rheolaidd ar Wastraff Trefol Awdurdodau Lleol gan gynnwys dangosyddion allweddol megis faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu a'r canran sy'n cael ei baratoi i'w ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ar gyfer compostio.

Caiff ystadegau gwastraff eu defnyddio ar gyfer datblygu polisïau, a chynllunio i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus megis rheoli gwastraff. Yn fwy penodol, mae data ar wastraff trefol awdurdodau lleol yn cael ei ddefnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn y targedau statudol a bennir yn strategaeth gwastraff Llywodraeth Cymru Tuag at Ddyfodol Di-wastraff. Mae'r data ar Wastraff Trefol Awdurdodau Lleol hefyd yn llunio rhan o'r wybodaeth sy'n cael ei defnyddio i fonitro un o'r 46 o Ddangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Cymru: Faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu ac nid ei ailgylchu, fesul person.

Daw yr wybodaeth o'r system Llif Data Gwastraff (sy'n cael ei fonitro gan Cyfoeth Naturiol Cymru). Caiff yr wybodaeth ar wastraff trefol awdurdodau lleol ei gyflwyno gan awdurdodau lleol i System Llif Data Gwastraff pob chwarter.

## Cyhoeddi - Sefyllfa Bresennol

Caiff data gwastraff trefol awdurdodau lleol chwarterol dros dro ei gyhoeddi mewn pedwar datganiad ystadegol chwarterol manwl (ym mis Tachwedd, Chwefror, Mai ac Awst bob blwyddyn). Yn ogystal â dadansoddi data chwarterol ar lefel genedlaethol a lleol, mae'r datganiadau hyn hefyd yn dadansoddi data yn ystod cyfnod treigl o ddeuddeng mis. Mae cyfraddau yr awdurdodau lleol ar gyfer gwastraff fesul person ac fesul annedd yn cael ei gynnwys hefyd.

Caiff data chwarterol ei gyhoeddi hefyd ar StatsCymru (ond dim ffigurau cyfartaledd treigl o ddeuddeng mis).

Caiff y data blynyddol (blwyddyn ariannol) ei gyhoeddi a'i ddadansoddi mewn bwletin ystadegol blynyddol manwl yn ystod y mis Hydref wedi diwedd y flwyddyn ariannol. Caiff y data blynyddol cysylltiedig ei gyhoeddi ar StatsCymru.

Mae allbynnau gwastraff trefol awdurdodau lleol

Mae'r set data llawn ar gael ar StatsCymru.

## Problemau

Mae cynnwys y datganiadau ystadegol chwarterol yn fanwl, a gallent fod yn ddryslyd i ddefnyddwyr. Nid yw rhai o'r dangosyddion sy'n cael eu cynnwys yn y datganiad ystadegol chwarterol yn cael eu cynnwys yn y datganiad blynyddol. Mae'r datganiadau chwarterol yn seiliedig ar ddata dros dro sy'n cael eu diwygio yn y cyhoeddiad blynyddol. Mae cyhoeddi'r datganiadau chwarterol yn golygu defnyddio llawer o adnoddau.

**Cynnig**

Bwriad yr ymgynghoriad hwn yw holi barn defnyddwyr am gynigion i:

(a) Roi'r gorau i gyhoeddi y datganiad ystadegol chwarterol a'i ddisodli gyda Pennawd Ystadegol byr sy'n rhoi amlinelliad o'r prif bwyntiau ar lefel Cymru. Cyhoeddi data allweddol cysylltiedig ar gyfer Cymru ac Awdurdodau Lleol ar StatsCymru, i gynnwys y canlynol (chwarterol a chyfartaledd treigl o ddeuddeng mis):
  - Sgil-gynhyrchion gwastraff trefol
  - % Ailddefnyddio/ailgylchu/compostio
  - % Ailddefnyddio/ailgylchu
  - % Compostio

(b) Rhoi'r gorau i gyhoeddi data dros dro ar gyfer Chwarter 4 ym mis Awst, a chyhoeddi data Chwarter 4 fel rhan o ddatganiad blynyddol terfynol ym mis Hydref. Byddai'r datganiad blynyddol yn rhoi dadansoddiad manwl o ddata gwastraff trefol yr awdurdod lleol, a byddai'n dod gyda tablau data StatsCymru.

**Tystiolaeth dros newid**

Mae'r datganiadau ystadegol chwarterol yn fanwl ac yn defnyddio llawer o adnoddau. Er bod y data chwarterol o rywfaint o ddiddordeb i'r defnyddiwr a'r cyfryngau, nid ydym yn teimlo bod angen cynnwys y dadansoddiad llawn sydd yn y datganiadau ystadegol chwarterol. Mae'r datganiadau chwarterol yn seiliedig ar ddata dros dro sy'n cael eu diwygio yn y cyhoeddiad blynyddol. Byddai cyhoeddi Pennawd Ystadegol byr yn rhoi amlinelliad o'r prif bwyntiau ar lefel genedlaethol bob chwarter yn ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr ddod o hyd i'r prif bwyntiau, a byddai'n arbed adnoddau. Byddai cyhoeddi'r canlyniadau allweddol ar lefel genedlaethol a lefel awdurdod lleol ar StatsCymru yn golygu y gall y defnyddwyr ddod o hyd i ddata allweddol ar lefel yr awdurdod lleol fel y gallant ar hyn o bryd.

Mae data Gwastraff Trefol Awdurdodau Lleol yn amrywio ac mae nifer o bethau yn effeithio arnynt. Er enghraifft, mae gan rai awdurdodau lleol fwy o wastraff yn yr haf oherwydd bod mwy o dwristiaid. Mae amodau tywydd (eira e.e.) yn cael effaith ar gasglu sbwriel, ac mae'r amser rhwng y cyfnod y caiff y deunyddiau eu casglu a'u hanfon i'w hailgylchu yn gallu croesi nifer o gyfnodau chwarterol. Felly nid yw'r ffigurau chwarterol ar eu pennau eu hunain yn ddefnyddiol iawn i asesu'r cynnydd. Mae'r ffactorau sy'n cael effaith ar ddata chwarterol yn tueddu i ddiflannu dros gyfnod o gyfartaledd treigl 12 mis ac felly mae'r data blynyddol yn fwy dibynadwy. Byddai cyhoeddi ffigurau blynyddol treigl dros 12 mlynedd ochr yn ochr â data chwarterol ar StatsCymru yn rhoi gwell gwybodaeth i ddefnyddwyr ac yn lleihau'r perygl o dueddiadau'n cael eu camddehongli gan ddefnyddwyr.

Ar hyn o bryd, mae'r datganiad chwarterol a tablau StatsCymru yn cynnwys dadansoddiad o gyfraddau cenedlaethol a chyfraddau'r awdurdod lleol ar gyfer gwastraff gweddilliol cartrefi fesul person a fesul aelwyd (ar sail chwarterol yn unig). Ni chaiff y cyfraddau hyn eu cyhoeddi'n flynyddol o fewn y bwletin blynyddol. Rydym yn credu y byddai'n fwy priodol i gyhoeddi cyfraddau o'r fath yn flynyddol o fewn y cyhoeddiad blynyddol oherwydd bod perygl ei gamddehongli wrth edrych ar y data chwarterol.

Ar hyn o bryd, mae cyhoeddi data Chwarter 4 dros dro (a thrwy hynny data dros dro y flwyddyn ariannol) ar ddiwedd Awst, a data terfynol y flwyddyn ariannol oddeutu 6 wythnos yn ddiweddarach, yn aneffeithiol a gallai fod yn gamarweiniol, gan ddrysu

defnyddwyr. Byddai cyhoeddi data Chwarter 4 fel rhan o'r datganiad blynyddol ym mis Hydref yn caniatáu amser ychwanegol i roi sicrwydd ansawdd i'r data.

Byddai cyhoeddi Pennawd Ystadegol byr (gyda tablau StatsCymru) bob chwarter a datganiad ystadegol blynyddol yn sicrhau bod yr allbynau yn cyd-fynd ag allbynnau ystadegol chwarterol sy'n cael eu cyhoeddi ar nifer o bynciau gan gynnwys tai a iechyd.

***Cwestiynau ymgynghori penodol::***

*(a) A ydych yn cytuno gyda'r cynnig i roi'r gorau i gyhoeddi'r datganiad ystadegol chwarterol manwl a chyhoeddi Pennawd Ystadegol byr yn ei le yn rhestru'r prif bwyntiau ar lefel Cymru (tra'n ychwanegu data treigl dros 12 mis i dablau StatsCymru)? Rhowch eglurhad byr o'ch ateb.*

*(b) A ydych yn cytuno gyda'r cynnig i roi'r gorau i gyhoeddi data dros do Chwarter 4 ym mis Awst, a chyhoeddi data Chwarter 4 fel rhan o'r datganiad blynyddol terfynol ym mis Hydref? Rhowch eglurhad byr o'ch ateb.*

*(c) Beth yw eich barn am fformat a chynnwys yr adroddiad blynyddol ar hyn o bryd? Oes angen dadansoddiadau amgen arnoch?*

Cewch ymateb i'r ymgynghoriad drwy ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar wahân (ar ffurf Excel). Gellir anfon hon mewn ebost at ystadegau.amgylchedd@cymru.gsi.gov.uk neu ei phostio at:

Luned Jones
Ystadegau Tai a'r Amgylchedd
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Bydd crynodeb o'r dystiolaeth a'r canfyddiadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn llywio ein penderfyniad o ran a ellir gweithredu'r newidiadau hyn. Mae hyn yn unol â'r Cod Ymarfer Swyddogol ar gyfer Ystadegau sy'n datgan bod trafod yn effeithiol â'r defnyddiwr yn sylfaenol o ran ymddiriedaeth yn yr ystadegau a sicrhau cymaint o werth cyhoeddus â phosib.

Gan mai ymgynghoriad ystadegol yw hwn, bydd y penderfyniad terfynol ar ganlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei wneud gan Brif Ystadegwr Llywodraeth Cymru. Y Prif Ystadegydd yw Pennaeth Proffesiwn ystadegau Llywodraeth Cymru. Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol yn datgan bod gan y Prif Ystadegydd y prif gyfrifoldeb dros benderfynu ar ddulliau ystadegol, safonau a gweithdrefnau, ac ar gynnwys ac amseru datganiadau ystadegol.

Os y cytunir ar y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r newidiadau o'r cyhoeddiad ar gyfer data  Chwarter 1 2017-18 ym mis Tachwedd 2017.